




# Atal camddefnydd rhywiol o blant



**stop it** UK & Ireland  
**now!**  
Together we can prevent **child sexual abuse**

## Beth yw Stop it Now!?

Mae camddefnydd rhywiol o blant yn broblem ddifrifol sydd yn effeithio niferoedd mawr o'n plant a'n pobl ifanc. Gyda help, gall llawer o blant a gamddefnyddir oresgyn eu profiadau, er yr effeithir yn ddwfn iawn arnynt bob un am weddill eu bywydau. Ond mae modd atal y niwed a achosir – mae'r oedolion sydd yn gofalu am blant, a hyd yn oed y rhai sydd yn eu niweidio, **yn gallu** weithredu ar unwaith i atal camddefnydd rhywiol.

Mae camddefnydd yn ffynnu mewn awyrgylch o gyfrinachedd a thabŵ. Mae Stop it Now! UK & Ireland yn ymgrych bwysig genedlaethol a lleol sydd â'i nod ar atal camddefnydd rhywiol o blant trwy annog camddefnyddwyr a camddefnyddwyr dichonol i chwilio am help a thrwy roi i oedolion y wybodaeth y mae ei hangen arnynt er mwyn diogelu plant yn effeithlon.

Mae Stop it Now! yn credu bod camddefnydd rhywiol yn broblem iechyd cyhoeddus ataladwy ac mae'n herio oedolion i greu cymdeithas na fydd yn goddef camddefnydd rhywiol o blant rhagor.

## Pam mae angen Stop it Now!

Er gwaethaf y cynydd mewn ymwybyddiaeth, erys camddefnydd rhywiol o blant yn destun difrifol o iechyd cyhoeddus. Yn ôl yr ymchwili ddiweddaraf, camddefnyddir 1 o bob 6 o blant yn rhywiol cyn cyrraedd 16 oed. Mae'r costau'n anferth, i unigolion sydd yn dioddef trawma camddefnydd a hefyd i'w teuluoedd a'u cymunedau.

Yn groes i'r hyn a gredir yn gyffredinol, dengys ymchwili bod plant yn debycach o lawer i gael eu camddefnyddio gan rywun maent yn ei adnabod na gan ddiethryn. Y camddefnyddiwr mwyaf cyffredin yw aelod o deulu'r plentyn neu gyfaill neu gymydog. Yn y sefyllfa honno, mae plant yn arbennig o ddi-rym i amddiffyn eu hunain. Ychydig o bobl sydd yn sylweddoli yn cael eu camddefnyddio gan blant hŷn neu bobl yn eu harddegau; cafodd rhai o'r bobl ifanc hyn eu camddefnyddio eu hunain.

Gall oedolion sydd yn gofalu am blant, a hyd yn oed y rhai sydd yn eu niweidio, weithredu ar unwaith i atal y camddefnydd hwn.

Ni fydd tri chwarter o'r plant a chaiff eu camddefnyddio'n dweud amdano wrth neb, llawer ohonynt yn ei gadw'n gyfrinach trwy weddill eu hoes. Nod Stop it Now! yw torri'r muriau o ddistawrwydd a rhoi i oedolion yr hyyder i weithredu er mwyn diogelu plant.

Mae Stop it Now! yn credu bod rhai i oedolion gymryd cyfrifoldeb am ddiogelu plant cyn gynted ag y bydd modd – o ddewis cyn y bydd camddefnydd yn digwydd. I wneud hyn, rhaid eu bod mewn modd i adnabod arwyddion camddefnydd a deall sut y bydd camddefnyddwyr yn ymddwyn.

Nid bwystfil yw troseddwr rhywiol, pa mor erchyll bynnag y mae eu hymddygiad, ac mae'r troseddwyr treisgar rheibus a bortreadir yn gyffredinol yn y cyfryngau yn brin iawn. Mae oedolion sydd yn camddefnyddio plant yn atebol am eu hymddygiad a gallant ddewis rhoi terfyn arno.

Mae Stop it now! yn cynnig agwedd bositif tuag at y broblem hon. Mae'n hyrwyddo dealltwriaeth a gweithredu cyfrifol, gan herio camddefnyddwyr neu'r rhai sydd yn ystyried camddefnyddio plentyn i geisio help ar unwaith.

## I bwy mae Stop it Now!?

Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth gyffredinol, am gamddefnydd rhywiol, anelir ymgyrch Stop it Now! UK & Ireland at y grwpiau allweddol hyn:

- Oedolion sydd wedi camddefnyddio plentyn neu sydd yn ystyried gwneud hynny; i'w hannog i adnabod bod eu hymddygiad yn ddiriol a cheisio help er mwyn newid
- Teuluoedd a chyfeillion a chamddefnyddwyr; i'w helpu nhw i gydnabod arwyddion ymddygiad diriol a cheisio cyngor ar sut i weithredu
- Rhieni plant a phobl ifanc sydd yn camddefnyddio plant eraill yn rhywiol; rhoi gwybodaeth iddynt am yr arwyddion rhybuddiol a phryd i geisio am help



Ni fydd tri chwarter o'r plant a chaiff eu camddefnyddio byth yn sôn wrth neb arall am y camddefnydd yn ystod eu plentynod.

## Beth y bydd Stop it Now! yn ei wneud?

Mae Stop it Now! UK & Ireland yn datblygu rhwydwaith o brosiectau lleol ar draws y Deyrnas Unedig. Seilir y prosiectau hyn ar bartneriaethau rhwng y gymuned leol a'r asiantaethau sydd yn gweithio i ddiogelu plant, gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaethau profiannaeth a chymdeithasol, iechyd, tai, asiantaethau gwirfoddol a'r llysoedd.

Teilwriw y gwasanaethau a gyflawnir gan y prosiectau i'r anghenion lleol ac maent yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Ymgyrchoedd yn y cyfryngau i godi ymwybyddiaeth o gamddefnydd rhywiol o blant a sut y gall cymunedau a theuluoedd ddiogelu plant
- Defnyddiaeth gwybodaeth yn esbonio camddefnydd rhywiol o blant, sut i'w adnabod a sut i geisio help
- Cyfarfodydd cyhoeddus i hyrwyddo trafodaeth am ddiogelu plant a rhan unigolion a'r gymuned

Cefnogir y prosiectau lleol gan linell gymorth ffôn ganolog, sydd yn cynnig cyngor a chefnogaeth cyfrinachol i oedolion sydd yn drwgdybio bod rhywun maent yn eu hadnabod yn berygl i blentyn ac i'r rhai sydd yn ceisio help er mwyn atal eu meddyliau ac ymddygiad difriol eu hunain.

Mae Stop it Now! yn gweithio hefyd gyda gwleidyddion a phenderfynwyr polisi ar lefel genedlaethol i hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o gamddefnydd rhywiol o blant fel testun iechyd cyhoeddus ataladwy ac i ehangu'r gwasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr a goroeswyr camddefnydd a chamddefnyddwyr fel y cyfryw.

Mae'n hysbys bod camddefnydd yn digwydd ar draws pob cymuned a grŵp cymdeithasol ac nod Stop it Now! yw gwneud ei ymgyrchoedd a'i weithgareddau'n gyraeddadwy gan bawb ac yn briodol i anghenion pob rhan o'r gymdeithas.

Partneriaeth  
rhwng y  
gymuned leol  
a'r asiantaethau  
sydd yn gweithio  
gyda'i gilydd  
i helpu plant.

## Ydi Stop it Now! yn gweithio?

Mae ein prosiectau ym Mhrydain ac Iwerddon yn dangos effeithiolrwydd yr agwedd hon. Gofynnwyd am filoedd o daflenni sydd wedi'u dosbarthu. Datblygwyd perthnasau adeiladol â'r cyfryngau. Dangosodd dadansoddiad allanol o erthyglau yn y wasg mewn un o ardaloedd ein prosiect bod y mwyafrif llethol yn gallu ail-adrodd negesau allweddol a osodwyd mewn manau amlwg.

Mae niferoedd cynyddol o bobl yn cysylltu â'n llinell gymorth am wybodaeth a chyngor. Daw dros dri chwarter o'r galwadau oddi wrth bobl yn ein grwpiau targed. Daw mwy nag un o bob tri o'r holl alwadau gan oedolion sydd yn poeni am eu hymddygiad eu hunain ac sydd am gael help i newid. Daw nifer debyg gan oedolion sydd yn pryderu am aelod o'r teulu neu rywun maent yn ei adnabod yn dda. Lle'n briodol, byddwn yn helpu galwyr i gysylltu ag adnoddau triniaeth a diogelu plant yn eu hardaloedd nhw.

Yn groes i'r gred gyffredinol, mae triniaeth yn bosibl i gamddefnyddwyr rhywiol. Mae ymchwil yn dangos bod y sawl sydd wedi cwblhau rhaglen achrededig o driniaeth yn llai tebygol o lawer o ail-droseddu.



Mae mwy nag un o bob tri a fydd yn ffonio yn poeni am eu meddyliau neu ymddygiad rhywiol tuag at blant.

Mae **Stop it Now!** yn galw ar unrhyw un sydd wedi camddefnyddio plentyn yn rhywiol, neu sydd yn ystyried gwneud hynny, i gysylltu â'n Llinell Gymorth fel y cam cyntaf i gael help.

Llinell Gymorth Rhadffôn **0808 1000 900**

## Beth allewch chi ei wneud i helpu?

Mae Stop it Now! UK & Ireland yn awyddus i ddatblygu ei rwydwaith o brosiectau lleol. Os oes gennych chi ddi-ddordeb mewn cyfrannu tuag at ddatblygiad prosiect yn eich ardal, cysylltwch â'r cyd-lynydd cenedlaethol yn y cyfeiriad drosodd.

Mae angen arian arnom i'n helpu i barhau gyda'n gwaith i ddiogelu plant. Os hoffech chi wneud cyfraniad neu lunio achlysur i godi arian, cysylltwch â ni.

Os yn drwgdybio bod rhywun yr ydych yn ei adnabod yn camddefnyddio plentyn yn rhywiol neu os ydych yn poeni am eich meddyliau neu'ch ymddygiad chi tuag at blant, ffoniwch

**Linell Gymorth Stop it Now! ar  
0808 1000 900**

Os oes gennych chi unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch plentyn neu yn drwgdybio camddefnydd, cysylltwch â Llinell Gymorth Diogelu Plant yr NSPCC

**0808 800 5000**  
neu'r **heddlu**  
neu'r **gwasanaethau cymdeithasol.**

Llinell Gymorth Rhadffôn **0808 1000 900**

## Taflenni eraill sydd ar gael o Stop it Now! UK & Ireland

### Yr hyn y mae rhaid ini ei wybod i Ddiogelu ein Plant

Mae'r daflen hon yn rhoi'r wybodaeth y mae ei hangen arnom i gyd i adnabod arwyddion rhybuddiol o gamddefnydd mewn oedolion rydym yn eu hadnabod ac i fagu'r hyder i wneud rhywbeth am hynny.  
(Cyf. Stop 02)

### Chwarae Plant? Atal camddefnydd ymhlith plant a phobl ifanc

Dyma daflen ar gyfer pawb sydd yn ymwneud â chodi plant. Mae'n esbonio bod rhai plant yn camddefnyddio plant eraill yn rhywiol, sut y gallwn adnabod yr arwyddion rhybuddiol a sut y gallwn weithredu i'w atal.  
(Cyf. Stop 03)

I gael copïau o'r taflenni hyn, cysylltwch â Gweinyddwr Stop it Now! Rhif ffôn: 01527 598184

E-bost: [office@stopitnow.org.uk](mailto:office@stopitnow.org.uk)

Dyluniad a Chynhyrchiad Tudor Design and Print Cyfyngedig. Rhif ffôn: (01527) 596202

Llinell Gymorth Rhadffôn **0808 1000 900**



Stop it Now! UK & Ireland  
PO Box 9841  
Birmingham B48 7WB

Cefnogir Stop it Now! UK & Ireland gan gynghrair o'r cyrff canlynol:

Barnardo's  
ChildLine  
The Lucy Faithfull Foundation  
NCH  
NOTA  
NSPCC  
The Survivors Trust  
a chynrychiolwyr llywodraeth ac asiantaethau stadudol.

Am gymorth a chyngor cyfrinachol cysylltwch â'n  
**LLINELL GYMORTH RHADFFÔN**  
**0808 1000 900**

Ar hyn o bryd, nid oes siaradwyr y Gymraeg  
gennym yn staffio'n Llinell Gymorth

neu e-bost: [help@stopitnow.org.uk](mailto:help@stopitnow.org.uk)



I archebu copïau ychwanegol o'r daflen hon ac am bob ymholiad arall,  
cysylltwch â Gweinyddwr Stop it Now!

Rhif ffôn: 01527 598184

E-bost: [office@stopitnow.org.uk](mailto:office@stopitnow.org.uk)

Gwefan Stop it Now!: [www.stopitnow.org.uk](http://www.stopitnow.org.uk)

Trefnir Dyna Ddigon UK & Ireland yn annibynnol o *STOP IT NOW!* yr Unol Daleithiau. Ond hoffwn gydnabod yn ffurfiol inni selio ein hamcanion a'n hagwedd ar y rhai a ddatblygwyd yn wreiddiol gan *STOP IT NOW!* yr Unol Daleithiau. Gwerthfawrognw y gefnogaeth hael a roddwyd gan ein cydweithwyr yn America i'n hannog i sefydlu'r fenter newydd hon.